13 Mawrth 2011 Gweddi

Tawelwch i feddwl am y teuluoedd a ddioddefodd wedi'r ddaeargryn yn Siapan

I lawer iawn o bobol, O Dduw, dwyt ti ddim yn bod. Ac eto arnat ti y mae'r bai, meddai'r un bobol sy'n gwadu dy fodolaeth, am ganiatáu dioddefaint i ddynoliaeth. Y mae grym dy greadigaeth yn aruthrol, yn ddychryn, yn ysgwyd y byd. Mae'n gweddïau ni dros y rhai hynny sy'n dioddef effaith daeargrynfeydd ac ôl-gryniadau a rhuthr y tonnau.

Fe welwyd golygfeydd i beri braw a thorri calonnau. A hynny o bellter diogel ein haelwydydd. Bydd, O Arglwydd, yn agos at y rhai sy'n ei chanol hi; y rhai hynny y mae'r byd, yn llythrennol, yn dymchwel o'u cwmpas.

Rhywsut ryden ni'n dygymod yn well â'r grymoedd hynny a ddatblygwyd gan Ddyn, ac fe wnawn ni esgusodion pan ddigwydd dinistr o effaith hwnnw. Dyn yn methu â ffrwyno egni, yn methu â'i reoli er budd y ddynoliaeth. Dyn yn creu ffrwydriadau sy'n chwalu a difetha, yn anafu a lladd. Fe'n cawn ein hunain yn llawn edmygedd – ac yn llawn cywilydd. Yn gymysg oll i gyd. Ond y mae grymoedd natur gymaint yn fwy pwerus.

O'n cwmpas fe welwn ni effeithiau tawel y pŵer hwnnw; fe welwn ni fyd natur yn ffrwydro'n un enfys o liw gyda dyfodiad y gwanwyn. Er caleted y gaeaf, er oered oedd yr hin, mae grymoedd creadigol byd natur yn deffro i gyffyrddiad peldrau'r haul; blodau a llwyni yn y gerddi. Fe ddaw'r dail i flaguro ar y coed. A ninnau'n rhyfeddu ac yn diolch bod grym prydferth felly'n bosibl. Ond yn ein hoedfa helpa ni i ryfeddu'n fwy at rym yr ysbryd nerthol fel y gwynt sy'n 'siglo muriau'r tŷ a phlygu dynion cry; O deued oddi fry – mae'n bryd i'w deimlo.'

Dyna'r ysbryd a ddisgynnodd ar ddilynwyr Iesu ar y Pentecost gan roi iddyn nhwythau rym ac egni i wneud pethau mawr yn dy enw di. Drwy'r oesau ti sydd wedi tanio pobol â brwdfrydedd, ti sydd wedi'n cynnal ni drwy bob storm. O brofiad fe allwn ni ddweud mai Ysbryd nerthol ac annisgwyl yw e, ysbryd afieithus yn ffrwydro fel fflam.

Wrth ddechrau'n paratoadau at y Pasg eleni, at gynhesrwydd pelydrau haul Cyfiawnder, tania ni, anadla ynom ni. Llefara wrthym ni. Meddianna ni. Agor ein meddyliau i amgyffred y grym rhyfedd hwn sy'n ein dyrchafu ni. A boed i ni fedru adlewyrchu'r llifeiriant hwn sy'n dwyn bywyd newydd yn ei sgîl.

Lle bydd yr awel yn anadlu'n dyner, neu lle bydd y gwynt yn sgubo'n ffyrnig gan greu cynnwrf, tyred di Arglwydd yn dy gariad i orlifo dros ein amheuon, i adfywio'n ffydd a'n harfogi â'th nerth anorchfygol.

Arglwydd clyw ein gweddi.